BWRLWM AERON

HYDREF 2014

PENNAETH NEWYDD

Rydym yn croesawu Catrin Thomas nol i'r ysgol ar ôl cyfnod mamolaeth fel ein Pennaeth newydd. Pob lwc iddi yn ei swydd newydd.

SIOE MATHEMATEG

Cafodd disgyblion Bl. 3, 4, 5 a 6 amser hwylus gyda chwmni 'Mewn Cymeriad' yn ddiweddar. Cynhaliwyd sesiwn o weithgareddau mathemategol yn olrhain hanes y Cymro Robert Recorde a ddyfeisiodd y symbol = .

DIOGELWCH BEICIO

Diolch i Michael a Dawn Tarling, a PC. Sharon Thomas am ymweld â'r ysgol i gynnal sesiynau beicio, yn cynnwys diogelwch gyda disgyblion Bl. 3 a 4 fel rhan o'i is-thema ar feicio.

CWRDD DIOLCHGARWCH

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch yng Nghapel Peniel, lle dathlwyd Diwrnod T.Llew Jones. Gwnaeth pob dosbarth gyflwyniad o farddoniaeth T.Llew a chyd ganwyd Cwm Alltcafan gan bawb. Daeth John Meirion Jones i annerch y plant â'r gynulleidfa gan adrodd hanesion difyr am bersonoliaeth a champau rhyfeddol T.Llew. Diolchwyd iddo gan Daniel Clemas. Gwnaed casgliad o £196 tuag at Ymchwil Cancer Cangen Aberaeron.

Diolch i swyddogion Capel Peniel am eu parodrwydd i ni gynnal gwasanaeth yn y capel.

BORE COFFI MACMILLAN

Cafwyd Bore Coffi Macmillan llwyddiannus iawn yn yr ysgol ddiwedd mis Medi a llwyddwyd i godi £720 i'r gronfa. Gwisgodd pawb mewn dillad pinc a gwyrdd gan gyfrannu at yr elusen. Am y tro cyntaf cafwyd cystadleuaeth 'Coginio Cŵl' ar ffurf 'bakeoff' a chyrhaeddodd degau o gacennau creadigol a lliwgar. Enillwyd y gystadleuaeth gan Declan Squires ac mi werthwyd y cacennau am elw sylweddol.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac i drigolion y dre a wnaeth alw heibio.



Enillydd 'Coginio Cŵl'

Declan Squires

GWERSI HOCI

Dysgodd Julie McAdam o Hoci Cymru sgiliau hoci sylfaenol i flwyddyn 3 a 4 dros yr wythnosau diwethaf yn eu gwersi chwaraeon

YMWELIAD PC JACKIE

Daeth PC Jackie a PC Alun i roi cyflwyniad i bawb ar fod yn ffrindiau da ac i edrych ar ôl ein gilydd. Roedd o'n gyfle da i rannu syniadau a cytuno ar bwysigrwydd edrych ar ôl ein gilydd.

PARTI CALAN GAEA'

Diolch o galon i Ffrindiau'r Ysgol am drefnu parti Calan Gaea' yn y Clwb Rygbi fel arfer.

Roedd pob math o wrachod ac anghenfilod yn bresennol yn dawnsio i'r miwsig.

CROESO

I Lowri Jones, sydd bellach yn dysgu yn y dosbarth Meithrin. Gobeithio ei bod yn mwynhau gyda ni ac i'r myfyrwyr Tomi, Cerys a Steffan a fydd gyda ni tan y Nadolig.

CYNGERDD MANDARIN

Croesawyd offerynnwyr o Tseina a oedd ar ymweliad a Choleg Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llambed i'r ysgol i roi Cyngerdd offerynnol i'r disgyblion. Clywyd amrywiaeth o offerynnau gwahanol ac yn y diwedd ymunodd pawb mewn dawns.

EXPERIMENTRIX

Teithiodd Bl.3 a 4 a'r dosbarth Derbyn i Felinfach i fwynhau sioe wyddoniaeth a oedd yn llawn rhyfeddodau anhygoel. Dysgwyd am ddeunyddiau, aer yn symud , cysgodion a lliwiau mewn ffordd ddramatig a deinamig.

CLWB YR URDD

Bellach mae Clwb Urdd yn cwrdd yn wythnosol. Yn ystod y tymor yma rydym wedi bod yn glanhau'r traeth, cael sesiynnau celf, cogninio, a dysgu Ffrangeg ac Almaeneg ac wrth gwrs yn chwarae Bingo! Bydd rhestr o weithgareddau hanner tymor nesaf i ddilyn.

DYDDIADAU

Gala Nofio'r Urdd - 12.11.14

Plant mewn angen— 14.11.14

H.M.S. - 17.11.14

Diwrnod croeso i rieni newydd - 25.11.14

Nadolig Cymunedol Aberaeron - 6.12.14

Gwasanaeth Nadolig - 9.12.14

Diddanu'r Henoed - 11.12.14

Sinema—15.12.14

Cinio Nadolig—16.12.14

CROESO

I'r plant newydd sydd wedi dechrau yn y Dosbarth Meithrin ac o fewn y dosbarthiadau eraill.

GLANHAU'R TRAETH

Croesawyd Richard Thomas a Dafydd o Cadw Cymru'n Daclus i wneud gweithgareddau amgylcheddol ar y traeth gyda blynyddoedd 3 a 4. Fel rhan o'r ymweliad fe aethpwyd ati i lanhau'r traeth a darganfod pob math o bethau rhyfedd.

Diolch I Pob a Dafydd am fore diddorol.

Llun Bl. 3 a 4—glanhau'r traeth

CLWB PÊL-RWYD

Ar ôl hanner tymor mi fydd Clwb pêl-rwyd yn cael ei gynnal bob nos Lun o 3.30—4.00yp.

CROESO

I Zhao o Tseina a fydd gyda ni yn yr Ysgol i gynnal sesiynnau am gyfnod ar dydd Mawrth a dydd Iau.

CAPTEINIAID TAI 2014—15

Pentwr—Gruffydd Morgan a Mia Browne

Cadwgan—Freyja Bransden a Joshua Tarling

Alban—Meilyr Southgate a Poppy Evans

Llysgenhadon y Plant - Cerys Stevens a Rhodri Edwards

Llysgenhadon Chwaraeon—Joshua Tarling a Chloe Towell

TAITH FEICIO NODDEDIG MEITHRIN A DERBYN

Cafodd disgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn gyfle i gymryd rhan mewn Beicio Noddedig o gwmpas trac a oedd wedi ei gynllunio ganddynt ar iard yr Ysgol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Roedd hi mor braf i weld teulu a ffrindiau yn ymuno yn yr hwyl.

Bydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at brynu dillad bob tywydd i'r ddau ddosbarth.

NODYN MRS.THOMAS

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a'ch cydweithio dros yr hanner tymor yma. Mae wedi bod yn brysur ac yn llawn profiadau cyffrous. Mwynhewch eich gwyliau.

RHIFAU PÊL BONWS

13.9.14—Dai Morgan

20.9.14—Robert Jones

2 7.9.14—Susan Edwards

4.10.14—Andrea Woolley

11.10.14—Rachel McCready

18.10.14—Becky Wood

BWRLWM AERON

October 2014

NEW HEAD TEACHER

We welcome Catrin Thomas back to school after her maternity leave and we wish her all the best in her new post as Interim Head Teacher.

MATHEMATICS SHOW

Pupils from years 3, 4, 5 & 6 had an interesting and fun session with the 'In Character' company recently. Mathematical activities were held to tell the story of Robert Recorde, the Welshman who devised the = symbol.

BIKE SAFETY

Thank you to Michael & Dawn Tarling and PC.Sharon Thomas & PC Mike for visiting the school to undertake bicycle safety and cycling sessions with Year 3 & 4 pupils as part of their cycling theme.

HOUSE CAPTAINS

Pentwr—Gruffydd Morgan & Mia Browne

Cadwgan—Freyja Bransden & Joshua Tarling

Alban—Meilyr Southgate & Poppy Evans

School Ambassadors -Rhodri Edwards & Cerys Stevens

Sport Ambassadors—Joshua Tarling and Chloe Towell

MACMILLAN COFFEE MORNING

We had a very successful Coffee Morning at school and we managed to raise £720 for Macmillan. Everyone dressed up in pink and green clothes and contributed to the cause. For the first time this year we had a 'Bake off' competition for the children and many creative and colourful cakes arrived in school. Declan Squires won the competition and all the cakes were sold for a substantial profit. Thank you to everyone for their support and to the people of Aberaeron who joined us as well.

HARVEST THANKSGIVING

Our Harvest Thanksgiving was held in Peniel Chapel where we celebrated the achievements of the famous Welsh author T.Llew Jones. Every class presented poetry by T.Llew and all the pupils sang Cwm Alltcafan. John Meirion Jones gave a talk on his stories and his enthusiastic personality.

Daniel Clemas gave a vote of thanks.

A collection of £196 was made during the service to Aberaeron Cancer Committee. Many thanks to the officials of Peniel Chapel for their readiness for us to hold the service in the chapel.



'Bake off' winner
Declan Squires

PC.JACKIE VISIT

PC Jackie and PC Alun gave all the children an interesting talk about how to be good friends and look after each other. It was good to be able to share our ideas and agree on the importance of looking after each other.

HALLOWEEN DISCO

Many thanks to Friends of the School Committee for organising a Halloween disco at the Rugby Club once again We were surrounded by plenty of witches and monsters dancing to the music.

WELCOME

To Lowri Jones, who is teaching in the Nursery Class and we wish her all the best in her new post and to the students Tomi, Cerys and Steffan who will be with us until Christmas.

MANDARIN CONCERT FOR KS.2 PUPILS

We welcomed instrumentalists from China, who were on a visit to the University of Wales Trinity St.David, Lampeter to school and they performed a concert for the pupils.

We heard a variety of instruments and by the end everybody joined in and danced.

EXPERIEMENTRIX

Years 3 & 4 and Reception Class visited Theatre Felinfach to see a Science show which was full of wonderful wonders.

We looked at various materials, the movement of air, shadows and the colours of the rainbow through various dramatic and dynamic activities.

SPONSORED BIKE RUN—NURSERY & RECEPTION CLASS

The Nursery and Reception Class had the opportunity to take part in a Sponsored Bike Ride. The track had been created by them around the school yard. Thank you all for your support. It was wonderful to see families and friends join in the fun.

The monies raised will go towards buying all weather clothes for the two classes.

DATES

Urdd Swimming Gala - 12.11.14

Children in Need—14.11.14

INSET DAY - 17.11.14

New Pupils taster session—25.11.14

Aberaeron Community Singing—6.12.14

Christmas Service—9.12.14

Entertaining Senior Citizens—11.12.14

Cinema visit—15.12.14

Christmas Lunch—16.12.14

URDD

Urdd club is now held every Tuesday from 3.30—4.30pm for Yr. 1—6 pupils.

During this half term we have been cleaning the beach, having art sessions, cooking and learning French and German and of course Bingo. There will be a list of new activities to follow.

HOCKEY LESSONS

Julie McAdam from Hockey Wales has been to school over a number of weeks to teach the children of years 3—6 basic hockey skills during their sports lesson.

BEACH CLEAN

Years 3 & 4 had a great morning cleaning the beach with Pob and Dafydd as part of the Keep Wales Tidy Week. They collected a number of sacks of rubbish and they found a number of very interesting objects.

A big thank you to Pob and Dafydd for a fascinating morning.

Yr. 3 & 4—beach clean

BONUS BALL NUMBERS

13.9.14 - Dai Morgan

20.9.14—Robert Jones

27.9.14—Susan Edwards

4.10.14—Andrea Woolley

11.10.14—Rachel McCready

18.10.14—Becky Wood

NOTE FROM MRS.THOMAS

Thank you very much for your cooperation and support during the last half term. We've had a busy time, full of exciting experiences.Have a good half term!

NETBALL CLUB

After half term Netball Club will be held every Monday from 3.30—4.00pm.

WELCOME

To Zhao from China who will be with us in school to hold sessions on Tuesdays and Thursdays.

WELCOME

To all the new children that have started in the Nursery class and to the other pupils who have started in school.